# Dechrau Wrth Fy Nhraed

Sioned Evans
1900542
ECAD4009-C

**Cyflwyniad**

Ysgol gymunedol yw'r ysgol lleoliad, ac felly'n cael ei redeg gan yr awdurdod lleol. Sefydlwyd yr ysgol mewn pentref gwledig. Mae gan yr ysgol llawer o wahanol rhanddeiliaid, sef "anyone who is invested in the welfare and success of a school and its students." (The Glossary of Education Reform, 2014). Wrth ddarllen ethos yr ysgol, rwy'n gweld fod y gymuned yn flaenoriaeth wrth iddynt adeiladu "a close and productive relationship with parents and the local community." (Ysgol y Dderi, Dim dyddiad a). Yn ogystal â rhieni ac aelodau'r gymuned, mae athrawon, aelodau eraill o staff, disgyblion, teuluoedd a busnesau lleol hefyd yn rhai o'r rhanddeiliaid. Mae pwysigrwydd y gymuned hefyd i'w weld yn y ffaith bod y pennaeth wedi mynychu cwrs ar ddysgu sy'n seiliedig ar y gymuned.

Cafodd yr ysgol ei greu gan gau 5 ysgol mewn 5 pentref gwahanol, cyn i chweched ysgol gau i ymuno â'r ysgol ardal newydd. Un o weledigaethau'r ysgol a'r athrawon yw "creu ysgol gymunedol hapus" (Ysgol y Dderi, Dim dyddiad b) ar gyfer y plant sydd yn dod o'r wahanol ardaloedd yma. Mae Trydar a gwefan yr ysgol yn ffordd i rieni a'r gymuned gael y wybodaeth diweddaraf am yr ysgol a pha weithgareddau mae'r plant yn eu gwneud. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol fel bwydlen yr wythnos, pwy yw'r staff a beth yw eu rolau, a ffyrdd o gysylltu â'r ysgol. Mae tudalen Trydar yr ysgol hefyd yn cael ei ddiweddaru'n aml gyda gwybodaeth am beth sydd yn digwydd yn yr ysgol, lluniau o ba weithgareddau mae'r plant wedi bod yn gwneud a beth maent yn dysgu amdano.

**Yr Ysgol**

**Yr Ystafell Gymuned**

Gan fod yr ysgol yn ysgol gymunedol sydd yn gweithio mor agos gyda'r gymuned leol, mae'r ysgol ar gael i'r gymuned fel cyfleuster ac adnodd. Mae hyn i weld yn Ethos yr ysgol lle mae'n dweud "the community is supported by the school; we share our building during the day and in the evenings" (Ysgol y Dderi, Dim dyddiad a) Mae'r Clwb Ffermwyr Ifanc, Hamdden a Merched y Wawr leol yn defnyddio'r ystafell gymuned, sydd yn ar wahân i weddill yr ysgol a ddim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwersi yn yr ysgol. Mi fyddai'n sôn mwy am y grwpiau yma mewn rhan arall o'r poster. Mae'r ystafell gymunedol hefyd yn rhan o 'Bolisi yr Ysgol a'r Gymuned' yr ysgol lleoliad. Mae'r polisi yma'n sôn bod yr ysgol wedi cael ei adeiladu fel canolfan i'r ieuenctid fel ysgol, ond hefyd fel canolfan dysgu i Oedolion ac mae ambell wers i oedolion yn cymryd lle yma, fel gwersi Cymraeg. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys yr ystafell gymunedol ac yn sôn bod yna le i "goginio a gwneud paned ag eistedd yn gyfforddus" (Polisi yr Ysgol a'r Gymuned Ysgol y Dderi, 2006) Mae'r polisi yma'n hen ond rwyf wedi gweld â llygaid fy hun bod y cyfleusterau ar gael yn yr ystafell.

**Gwiwerod Bach**

Mae yna grŵp i famau ac i blant bach sydd yn cael ei gynnal yn yr ysgol hefyd, ar brynhawn dydd Mercher o 1y.h. hyd 3y.h. Mae'r ysgol yn agor i blant sydd ar fin dod i'r Meithrin er mwyn iddynt gyfarwyddo gyda'r staff a'r amgylchedd ac mae gweithgareddau yn cael eu trefnu gan staff y Meithrin a Derbyn.

**Yr Ardd Gymunedol**

Yn ogystal ag ystafell gymunedol, mae gan yr ysgol ardd gymunedol hefyd, sydd wedi'i leoli yn y Cae Fforest yn yr ysgol. Mae'r ardd yn cael ei berchen gan yr awdurdod lleol ac mae hawl gan aelodau'r gymuned mynd yna i arddio, ond dim ond tu allan i oriau ysgol. Mae un o'r llywodraethwyr hefyd wedi cydosod clwb garddio cymunedol yn yr ardd.

**Y Gymuned**

**Yr Henoed**

Mae'r henoed yn rhan o'r gymuned leol ac wrth edrych ar Trydar a gwefan yr ysgol, rwy'n gallu gweld bod y cysylltiad rhwng yr henoed a'r ysgol lleoliad yn un cadarn a bwysig. Mae yna gyfle i'r henoed i archebu prydau bwyd o'r ysgol ac maent hefyd yn gallu dod i'r ysgol i fwyta'r pryd os maen nhw'n dymuno. Mae hyn dim ond ar gael i'r henoed ac mae bwydlen ar wefan yr ysgol iddynt. Mae gan yr ysgol ystafell gymuned, rhywbeth rwyf wedi trafod mewn rhan arall o'r poster. Mae'r henoed yn defnyddio'r ystafell ar gyfer Hamdden a Merched y Wawr. Grŵp yw Hamdden, sy'n cael ei drefnu gan un o henoed y pentref ac yn gadael i'r henoed i gwrdd lan a chael cwpaned o de gyda'i gilydd ar y dydd Gwener gyntaf o bob mis am 2y.h. Mae Merched y Wawr yn cwrdd ar y trydedd nos Fercher o bob mis. Mae plant yr ysgol hefyd yn ymweld â'r henoed lleol adeg y Nadolig ac ar achlysuron eraill.

**Rhieni**

Mae cynnwys rhieni yn addysg eu plant yn hynod o bwysig. Sonia'r llyfr 'Social Class and Educational Inequality: The Impact of Parents and Schools' am yr effaith mae rhieni yn cael ar addysg eu plant. Mae cael rhieni sydd yn treulio mwy o amser gyda'u plant yn eu helpu gyda'u haddysg yn cael effaith mawr ar eu haddysg ac mewn teuluoedd sydd gyda "academically successful children, parents showed strong involvement with school and learning by providing materials, attending school meetings and engaging in homework with the child" (Siraj a Mayo, 2014, tud. 239) Mae'r ysgol yn annog rhieni i ddarllen gyda'u plant adref. Gall rhieni fod yn rhan o'r Llywodraethwyr ac mae hefyd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, lle mae rhieni ac athrawon yn cwrdd bob tymor yn yr ysgol i drafod y newyddion diweddaraf yn addysg ac i drefnu digwyddiadau codi arian. Mae'r ysgol hefyd wedi gosod Parent Mail i fyny, sydd yn cael ei ddefnyddio i hela llythyron a gwybodaeth bwysig i rieni. Mae yna ddyfyniad ar wefan Parent Mail, sydd yn nodi "it's proven, children achieve more when parents are involved with their education" (Parent Mail, Dim dyddiad) Noson rhieni yw ffordd arall i gynnwys rhieni yn addysg eu plant ac mae'n ffordd i'r athrawon siarad gyda rhieni am sut mae eu plant yn dod ymlaen yn yr ysgol.

**Eglwysi a Chapeli**

Gweithia'r ysgol yn agos gydag Eglwysi a Chapeli'r ardal. Mae yna gyfle i blant yr ysgol addurno Eglwys y pentref ar gyfer y Nadolig a'r Pasg. Defnyddir Eglwysi a Chapeli lleol ar gyfer Cwrdd Diolchgarwch, rhywbeth rwyf wedi sôn amdano'n barod.

**Yr Heddlu a'r Gwasanaeth Iechyd**

Daw'r Heddlu i fewn tua unwaith bob tymor i siarad gyda'r plant am wahanol faterion, fel cyffuriau, sut i gadw'n ddiogel ar y we ac aros yn ddiogel ar noson Calan Gaeaf a noson tân gwyllt. Mae Nyrsys lleol hefyd yn dod mewn i wneud brechiadau, siarad gyda'r plant am ei iechyd a sut i olchi eu dwylo'n gywir ac maent hefyd yn neud asesiadau ar rai plant.

**Cyngerddi**

Mae'r ysgol yn cynnal Cyngerdd Nadolig a Chwrdd Diolchgarwch, y ddau yn flynyddol, lle mae rhieni, teulu a'r gymuned yn gallu dod i wylio. Mae Ethos yr Ysgol yn dweud "our school is part of the community where parents, friends and citizens from the area will join us during concerts, celebrations, trips, services and fundraising activities for the school." (Ysgol y Dderi, Dim dyddiad a) Mae'r Ethos yma hefyd yn cynnwys gweithgareddau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon sydd yn codi arian, rhywbeth mi fyddaf yn sôn amdano yn rhan arall o'r poster. Gan fod yr ysgol wedi ei greu o 6 wahanol bentref, mae'r ysgol yn cylchdroi rhwng y 12 eglwys a chapel o'r 6 pentref amser Cwrdd Diolchgarwch, gyda'r Cyfnod Sylfaen mewn un lleoliad a Chyfnod Allweddol 2 mewn lleoliad arall. Mae yna hefyd un cyngerdd Cwrdd Diolchgarwch yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol yn flynyddol, ac mae'r Cyngerdd Nadolig yn cael ei gynnal yn y neuadd. Mae henoed o gartref henoed lleol yn dod i neuadd yr ysgol i wylio'r cwrdd diolchgarwch ac i godi arian ar gyfer elusen. Codwyd arian ar gyfer Ambiwlans Sant Ioan Hydref diwethaf.

**Iaith, Crefydd a Diwylliant yr Ysgol**

Fel gwnes i ddweud yn wybodaeth am yr ysgol, mae'r ysgol leoliad yn ysgol Cyfrwng Cymraeg, ac felly mae'n bwysig i'r ysgol eu bod yn dathlu eu Cymreictod, a'r diwylliant a chrefydd leol, ond mae'n hefyd yn bwysig i'r ysgol eu bod yn dangos pwysigrwydd parchu a dysgu am gredoau a chrefyddau eraill. Mae'r ysgol yn dathlu diwrnod Shwmae Sumae yn flynyddol, sydd hefyd yn cael ei ddathlu ar draws Cymru gyfan er mwyn hybu'r iaith Gymraeg. Mae ardal yr ysgol leoliad yn ardal Gristnogol ac mae'r ysgol yn cynnal gwasanaeth Cristnogol i'r disgyblion dwywaith yr wythnos, lle mae'r ysgol gyfan yn dod at ei gilydd. Ar ddiwedd y gwasanaeth, mae'r ysgol yn gweddïo gyda'i gilydd ac rwyf hefyd wedi gweld y disgyblion yn gweddïo cyn cinio tra fy mod allan ar Bontio. Fel gwnes i sôn, mae'r ysgol hefyd yn dathlu a dysgu am wledydd a chredoau eraill, ac yn ddiweddar maent wedi dysgu am Vasant Panchami Hindŵaidd, y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd ac amdano Siapan, lle daeth cwmni lleol, sydd yn cael ei redeg gan rieni un o blant yr ysgol, mewn i wneud swshi gyda'r plant.

**Llywodraethwyr**

Mae bwrdd Llywodraethwyr yr ysgol yn ffordd i'r gymuned, teuluoedd a rhieni i gynnwys eu hunain yn yr ysgol ac i fod yn rhan o benderfyniadau pwysig sy'n effeithio'r ysgol, fel dewis staff newydd ac i drafod unrhyw broblemau sydd yn codi yn yr ysgol.

**Ditectifs ar Daith**

Mae plant Meithrin a Derbyn wedi bod yn ymchwilio mewn i'r ardal leol. Un dydd, roedd y plant wedi mynd o gwmpas y pentref lleol i ddysgu am yr ardal ac roedd rhaid iddynt edrych am ffeithiau am y pentref. Tynnwyd lluniau ar y diwrnod yma a chawsant eu llwytho i dudalen Trydar yr ysgol.

**Rhestr Cyfeirnodi**

Fy Ysgol Leol (2019) *Ysgol y Dderi*. Ar gael yn: http://mylocalschool.gov.wales/School/6672366?lang=cy (Darllenwyd: 6 Chwefror 2020)
Parent Mail (Dim dyddiad) *Parent Mail*. Ar gael yn: https://www.parentmail.co.uk/ (Darllenwyd: 8 Chwefror 2020)
Polisi Ysgol y Dderi (2006) *Polisi yr Ysgol a'r Gymuned.*
Siraj I. a Mayo A. (2014) *Social Class and Educational Inequality: The Impact of Parents and Schools*. Cambridge: Cambridge University Press
The Glossary of Education Reform (2014) *Stakeholder.* Ar gael yn: https://www.edglossary.org/stakeholder/ (Darllenwyd: 6 Chwefror 2020)
Ysgol y Dderi (Dim dyddiad a) *Ethos.* Ar gael yn: http://www.ydderi.ceredigion.sch.uk/ethos (Darllenwyd: 8 Chwefror 2020)
Ysgol y Dderi (Dim dyddiad b) *Adran Iau.* Ar gael yn: http://www.ydderi.ceredigion.sch.uk/cy/dosbarthiadau/adran-iau (Darllenwyd: 8 Chwefror 2020)